

# Cenn@d

MAI 25 2022

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 65

## ‘Yr Alfa a’r Omega’

Adroddiad o Ddathliad Cenhadol Adran y Chwiorydd yn y Gogledd

Merched Cylch Menai, Henaduriaeth Môn, a estynnodd groeso i Ddathliad Cenhadol yng nghapel Disgwylfa, y Gaerwen, ar 4 Mai 2022. Da oedd gweld cynulleidfa o tua chant yn bresennol.

Croesawyd pawb gan Eirian Jones, Llywydd y Pwyllgor. Roedd y rhannau dechreuol yng ngofal dwy o aelodau Capel Disgwylfa; darllenodd Mrs Ann Jones Salm 145 ac offrymodd Mrs Rosie Evans Jones weddi. Darllenwyd y Datganiad gyda’n gilydd.

Cafwyd eitem gan Gwern Morris Williams, bachgen ifanc talentog, yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes, actor (Rownd a Rownd) ac enillydd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Canodd ddau emyn, ‘O nefol addfwyn Oen’ a ‘Gwawr wedi hirnos’. Cyflwynodd y Llywydd gopi o *Beibl yr Ifanc.net* i Gwern i’w drosglwyddo i’r ysgol. Cyfeiliwyd iddo ef a’r gynulleidfa gan Llifon Jones.

Cyflwynodd y Parch Nan Wyn Powell-Davies goffâd i dair merch a fu’n genhadon. Coffawyd Mrs Beryl Jones a fu farw yn 2020 gan y Parch Christopher Prew. Cyfeiriodd at gyfeillgarwch Mrs Beryl Jones, gweddwr’r Parchg Brynmor Jones. Bu’r ddau yn



Dr Rhiannon Ifans



Y gynulleidfa yng nghapel Disgwylfa, y Gaerwen

Shillong a Bryniau Casia, cyn dychwelyd i Gymru a gweinidogaethu yn Ysbyty Ifan, Rhos a Llangristiolus. Coffaodd y Parch Ddr Andras Iago ei nain, Mrs Ann James, gweddwr’r Parchedig Henry James. Buont hwythau yn genhadon yn Shillong, ac yn gweinidogaethu yn Awstralia, ac ar ôl dychwelyd i Gymru, yn Nyffryn Tanat, yng Nghaergybi ac yn Nhrawsfynydd. Wyr arall, sef Arawn Glyn, a gyflwynodd goffâd i Mrs Meirwen Higham. Cafodd dröedigaeth yn ifanc iawn, roedd yn efengylwraig ac yn Chwaer y Bobl gyda’r Forward Movement (Y Symudiad Ymosodol).

Diolchwn i Dduw am waith tair merch arbennig iawn.

Diolchodd y Llywydd i Mrs Carys Davies a Mrs Sarah Morris am eu gwaith gyda’r Astudiaethau Beiblaidd dros Zoom yn ystod y cyfnod clo. Lansiodd Carys y llyfr diweddaraf yng nghyfres ‘Gobaith yn Iesu’, sef *Myfi yw’r Alfa a’r Omega*, y dechrau a’r diwedd (Datguddiad 22:13). Cyflwynodd hefyd lyfryn bychan yn llawn adnodau, sef ‘Nerth bob dydd’. Diolchwyd i’r Parchedigion Aled Davies (Cyngor Ysgolion Sul Cymru) a Rhys Llwyd am eu gwaith gyda chyhoeddi’r llyfrau, a rhannwyd cyflenwad o’r ddau lyfr i’r henaduriaethau.

Estynnodd Mrs Margaret Jones groeso ysgrifenedig oddi wrth Ferched Trefaldwyn i Ddathliad Cenhadol yng nghapel Maen Gwyn, Machynlleth, ddechrau mis Mai 2023 –

Dewch am dro, dewch yn llon yn llu, i’n dathliad ni, draw i ardal Dyffryn Dyfi.

Cyflwynodd y Trysorydd, Miss Menna Jones, adroddiad ariannol a diolchodd am haelioni’r henaduriaethau a gyfrannodd £11,540; roedd swm y casgliad ar y diwrnod yn £374.

Croesawodd y Llywydd ein siaradwraig, sef Dr Rhiannon Ifans, Aberystwyth. Fe’i magwyd ar fferm ar gyrion y Gaerwen ac yr oedd wedi ei gwahodd i annerch yn y capel lle y treuliodd lawer iawn o amser. Yn dilyn gyrfa academaidd ddisglair, enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, 2019, a gwobr Tir na n-Og ddwywaith. Mae ganddi ddiddordeb mewn canu gwerin a’r plygain. Diolchodd am y gwahoddiad i ddod yn ôl adref, braint iddi oedd cael ein hannerch. Roedd ei neges yn seiliedig ar y thema ‘Gobaith yn Iesu, yr Alfa a’r Omega’. ‘Alffa’, llythyren gyntaf yr wyddor Roegaidd, ac ‘Omega’ llythyren olaf yr wyddor honno. Ein gobaith ni cyn creu’r byd – diwedd y byd ac i ni yn y canol.

Y mae’r Dathliad Cenhadol a’r anerchiad i’w gweld ar YouTube. Dilynwch y ddolen hon: <https://youtu.be/WvJb41mnwI0>

Diolchodd y Llywydd i Chwiorydd Môn am eu croeso a’r holl baratoadau, i Llifon Jones, Eirian Roberts, Miriam Lewis ac i Dr Rhiannon Ifans am anerchiad coeth ac arbennig.

Aethom adref yn swm yr emyn ‘Diolch i Ti, yr hollalluog Dduw’. Pleser pur oedd bod yno i wrando; daliwn ati i fod yn ddisgyblion Iesu.

Ymlaen i Fachynlleth ym Mai 2023.

Miriam Lewis

Cenhadwr Caernarfon  
Tudalen 2

Arddangosfa Gelf yng  
Nghapel Lind Road, Sutton  
Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant  
Tudalen 7

## Cenhadwr Caernarfon

Mae'r Parchedig Phil Wyman wedi croesi'r Iwerydd i ddod i Gymru sawl tro o'r blaen, ond y tro hwn dod i aros y mae. 'Y tro cynta i mi ymweld â Chymru oedd yn 2003,' meddai, 'ac erbyn hyn dwi'n nabod cannoedd o bobl ar draws y wlad.' Cyrraedd tre'r Cofis ddechrau Mai eleni y mae Phil i weithio gydag eglwys Caersalem, Caernarfon – ac mae ganddo weledigaeth gyffrous.

Anffyddiwr oedd Phil yn ystod ei gyfnod yn y coleg, ac roedd yn hoff o ddadlau â'r Cristnogion ar ei gwrs. Ond newidiodd pethau'n sydyn iddo. 'Mae'r peth yn gwneud i mi chwerthin o hyd! Ges i'r teimlad fod rhywun yn rhoi clatshen i mi ar fy wyneb, a'r gair "Duw" yn dod i fy meddwl o nunlle. A digwyddodd y peth yr ail dro, a'r tro hwn daeth y frawddeg "Jesus died for your sins" i fy mhen. Roedd y peth yn anhygoel – ond ro'n i'n gwybod ei fod yn arwydd clir i mi oddi wrth y Duw hwn roeddwn wedi bod yn dadlau yn ei erbyn.'

Fe ddaeth Phil yn Gristion a thafu ei hunan i fywyd yr eglwys, gan helpu gyda rhaglen adfer ar gyfer pobl ar gyffuriau ac alcohol, ac ar ôl pedair blynedd penderfynu mynd yn weinidog.

### Y gymuned baganaidd

O'r cychwyn cyntaf roedd yn awyddus iawn i weithio gyda mudiadau crefyddol newydd: pobl ar yr ymylon a rhai mewn 'cyltiau'. Dyna a'i harweiniodd i Salem, Massachusetts – canolfan fawr i'r gymuned neo-baganaidd yn America lle mae miloedd yn heidio bob Calan Gaeaf. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog mewn eglwys yno, a dechrau sylweddoli bod natur y gymuned yn golygu y dylai Cristnogion cychanogolbwyntio arddod i ddeall y gymuned baganaidd, er mwyn eu gwasanaethu a rhannu'r efengyl gyda nhw. 'Does neb yn disgwyl i Iesu droi i fyny ar ganol digwyddiad *Halloween* – ond pam lai?' meddai gyda gwên.

Ac felly, dyma nhw'n llogi stondin, gan gynnig pethau fel 'psalm reading' yn hytrach na 'palm reading'. Ymhen fawr o dro roedd pobl yn dod i chwilio amdany'n nhw bob blwyddyn, yn awchu am gael glywed rhagor am y byd ysbrydol hwn oedd mor wahanol i fyd ysbrydol gwyrachod a phaganiaeth fodern.

### Cymru

Dyma a ddaeth â Phil i Brydain, a dechreuodd grwpiau fel y Church



Mission Society ofyn iddo rannu ei brofiadau cenhadol gyda nhw a hyfforddi eu pobl. Ond roedd bob amser yn teimlo ysa tuag at lefydd ar yr ymylon, a phan ddaeth i nabod Cymru, ei hiaith a'i diwylliant unigryw gwpwl o oriau yn unig i ffwrdd o Lundain, cafodd ei gyfareddu.

Agorodd Duw ddrysau iddo a byddai'r ymweliadau â gwledydd Prydain yn dod yn rhai blynyddol. Datblygodd weinidogaeth mewn gwyliau haf – llefydd fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Burning Man Festival, Gŵyl y Gelli ayyb. 'Y gwirionedd yw,' meddai Phil ag angerdd yn ei lais, 'yn y manau hyn y mae pobl yn ein cymdeithas ni ar eu mwya agored. Efallai fyddai pobl ddim yn fodlon cael sgwrs ysbrydol yn y swyddfa neu ar y trên, ond pan fyddan nhw'n gadael eu gwallt i lawr mewn gŵyl, fe elli di siarad yn blaen am bethau mawr bywyd yn llawer mwy agored. A dwi'n argyhoeddedig bod angen i Gristnogion fod yno – yn gwranddo, yn ceisio deall a hefyd yn rhannu newyddion da lesu gyda phobl.'

Datblygodd y cysylltiadau gyda Caersalem dros amser, ac erbyn 2016 roedd Phil wedi sylweddoli bod Duw yn agor y drws iddo weinidogaethu'n llawn amser yma yng Nghymru. Bwridd ati i ddysgu'r Gymraeg, ac mae'n siŵr y bydd lleoliad yng Nghaernarfon o fudd mawr iddo ddod i nabod y diwylliant yn drwyadl.

Meddai Rhys Llwyd, gweinidog Caersalem, 'Fe wnes i gyfarfod â Phil am y tro cyntaf 17 mlynedd yn ôl pan ddaeth fel rhan o dîm i helpu i redeg y Gorlan goffi yn yr Eisteddfod ac rydym wedi cadw cysylltiad ers hynny. Yn Phil mae nifer o fydoedd yn dod ynghyd – yn amlwg ei ffydd Gristnogol, ond hefyd ei ddiddordeb mewn athroniaeth, cerddoriaeth a diwylliant yn gyffredinol. Mae'n llwyddo i bontio'r drafodaeth rhwng y bydoedd hynny mewn ffordd nad yw Cristnogion a'r eglwys yn gyffredinol wedi llwyddo i wneud yn ddiweddar. Rwy'n edrych ymlaen i groesawu Phil atom a'i weld yn cyfrannu at y sgwrs sydd angen digwydd ynglŷn â sut mae rhannu a byw'r ffydd Gristnogol yn y cyfnod ôl-Gristnogol yma.'

### Gweledigaeth

Ychwanegodd Phil: 'Fy ngweledigaeth yw helpu Cristnogion Cymru i feddwl mewn ffyrdd newydd a chreadigol ynglŷn â sut mae rhannu eu ffydd. Dwi'n gweld y diwylliant Cymraeg yn hollbwysig wrth ystyried y Cymry i gyd, ac mae gen i ddiddordeb mawr yn lle celf a cherddoriaeth yn hyn oll. Un o'r pethau dwi'n gobeithio'i wneud yw mynd ar daith gerdded o amgylch Cymru, yn siarad Cymraeg yn unig, a gwahodd unrhyw un i ddod i ymuno yn y daith wrth i mi fynd trwy eu hardal leol. Pan ydych chi'n cydgerdded, mae amser a hamdden i drafod y byd a'r betws. Mae Duw yn defnyddio pethau anghonfensiynol felly!'

# Dringo Kilimanjaro a'r Dyrchafael

Clywais yn ddiweddar am Martin Hibbert, dyn mewn cadair olwyn yn sgil anaf difrifol, oedd yn bwriadu dringo mynydd uchaf Affrica ym mis Medi. Bydd yn cario'r dorch baralympaidd o gemau Llundain 2012. Ei nod yw cefnogi eraill fel fe'i hunan sydd yn byw gydag anafiadau difrifol i'r asgwrn cefn.

Roedd Martin a'i ferch Eve yn y Manchester Arena bum mlynedd yn ôl ac yn sefyll yn agos at y terfysgwr a ffrwydrodd ei hunan gan ladd 22 o bobl eraill ac anafu dros fil o bobl. Fe oroesodd Martin a'i ferch ac mae'n dymuno gwneud rhywbeth cadarnhaol i gefnogi eraill sydd ag anafiadau a chodi ymwybyddiaeth o'u sefyllfa. Bydd yn codi arian at SIA, Cymdeithas Anafiadau Asgwrn Cefn.

Dwywedodd Martin: 'Dw i am droi gweithred arswydus o derfysg yn rym dros ddaioni.'

Gwnaeth hyn i mi feddwl am Efengyl Iesu Grist:

Mae Mai 26ain eleni yn Ddydd Iau Dyrchafael. Dyma'r dydd penodol y byddwn yn cofio esgyniad ein Harglwydd Iesu i'r nef, bedwar deg diwrnod ar ôl ei atgyfodiad o'r bedd. Roedd esgyniad yr Arglwydd Iesu yn rhan bwysig o'i ddyrchafiad gan Dduw y Tad, yn dilyn ei ddarostyngiad wrth ddod i'n byd mewn cnawd a bod yn ufudd hyd angau.

## Gweithred arswydus yn troi yn ddaioni

Ar Ddydd y Pentecost fe ddywedodd Pedr yn ei bregeth fod yr Iddewon yn gyfrifol am groeshoelio Iesu drwy law estroniaid Rhufain. Serch hynny, fe gyflawnodd y weithred arswydus yma 'fwriad penodedig a rhagwybodaeth Duw'. Doedd y weithred ysgeler ddim yn gallu rhwystro cynllun daionus Duw, ond yn hytrach ei hybu. Y cynllun oedd cyflwyno Arglwydd a Meseia byw i'r holl fyd, fyddai'n achub miliynau oddi wrth eu pechodau ac yn dod â nhw i fod yn rhan o deyrnas Dduw, ac o greadigaeth newydd Duw.

## Help i'r anafus

Neges teyrnas Dduw yn Iesu yw bod ein Harglwydd wedi marw yn ôl bwriad Duw dros bechod ei bobl. Ry'n ni wedi'n hanafu yn ddirifol gan bechod, nes ein bod yn ddiarth i Dduw ein Crëwr, yn methu â'i garu Ef na'n cyd-ddyn a byw er ei glod, ac yn wynebu colled dragwyddol yn uffern.

Ond roedd gan Dduw gynllun grasol, achubol. Dyma oedd neges yr Hen Destament wrth sôn am 'had y wraig' fyddai'n sigo pen y sarff ond nid heb gael ei sigo yn ei sawdl, a'r maen yn cael ei wrthod gan yr adeiladwyr cyn dod yn Ben-conglfaen, a'r Gwas Dioddefus yn cael ei arwain fel oen i'r lladdfa, i gyflawni cysgodion aberthau y Gyfraith. Ein Harglwydd ni yw'r Oen a fu farw ond sydd yn fyw.

Felly, mae pris a chosb ein pechod wedi eu talu ganddo Fe. Mae melltith Duw wedi ei rhoi ar ei Fab er mwyn rhyddhau ei bobl o bob melltith a chondemiad.

Bellach mae'r Arglwydd yn fyw, ac mae wedi esgyn i'r nef at y Tad. Roedd yr esgyniad yn gwarantu dyfodiad yr Ysbryd Glân ar Ddydd y Pentecost. Rhoes yr Ysbryd nerth i'r apostolion gwan i gyhoeddi Arglwyddiaeth Iesu'r Meseia, a chynnig maddeuant llawn am ein pechodau. Hefyd fe roes yr Ysbryd atgyfodiad ysbrydol i 3,000 o bobl trwy eu galluogi i edifarhau a chredu yn Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr. Mae hyn yn golygu bywyd newydd o berthynas agos â



Llun gan Gary Craig, (CC BY-NC-ND 2.0)

Duw mewn cwlwm o heddwch a chariad yng Nghrist, a derbyn gras i fyw er gogoniant i Dduw a dod yn debyg i Iesu Grist yn y pen draw.

A phan ddaw yn ôl mewn gogoniant ar ddiwedd hanes, fe gawn atgyfodiad corfforol hefyd, a chorff fel ei gorff gogoneddus Ef, yn rhydd o bechod a'i holl sgilleffeithiau. Cawn fynd ato i dŷ'r Tad, lle mae'n paratoi lle ar ein cyfer.

*John Treharne*



## Diwrnod Golff Cenn@d a'r Treasury Dydd Llun, Medi 12fed 2022 yng Nghlwb Golff Llangollen

Mae diwrnod golff wedi cael ei drefnu eto eleni yng nghlwb golff Llangollen.

Does dim angen i chi fod yn aelod o glwb golff nac efo handicap swyddogol, a bydd croeso cynnes i chi ac unrhyw un sy'n cydaddoli mewn eglwys Fedyddiedig neu Bresbyteriaidd.

Gadewch i'r trefnydd, Geraint Wyn Jones, wybod mewn da bryd os ydych am chwarae.

E-bost: [geraint.w.jones@btinternet.com](mailto:geraint.w.jones@btinternet.com)

Ffôn: 01978 846151 Neges testun i: 07707752901

### Trefn y Dydd fydd:

Cyfarfod am hanner dydd am frechdan cig moch a phaned

Rownd o golff 18 twll (tî cyntaf am 1pm)

Pryd o fwyd dau gwrs ar ddiwedd y golff am oddeutu 6pm

Bydd bwyd llysieuol hefyd ar gael.

Bydd y gost yn ddibynol ar y nifer sy'n mynychu'r diwrnod ond bydd tua £40



## Cynnig Hafan yng Nghaernarfon

Dwi'n hoff iawn o sgwrsio gyda ffrindiau. Un o'r sgwrsiau dros y cyfnod clo cyntaf oedd yr hyn roeddwn yn ei golli am yr amser cyn i'r byd newid yn llwyr. Cyn Covid, roeddwn yn mynd ar wyliau dramor yn reit aml. Ychydig ddyddiau mewn ardal bach braf rywle yn Ewrop. Crwydro'r strydoedd, eistedd tu allan yn darllen. Dim dyddiadur, dim apwyntiadau na chyfarfodydd, dim agenda. Yr oeddwn yn un dda am grwydro a dod o hyd i gapel, eglwys neu gadeirlan. Eistedd yn dawel yno yn myfyrio, yn canolbwyntio arna i a Duw. Wrth gwrs fod addoli ar y Sul yn bwysig, ond yn aml roedd addoli yn golygu eistedd drwy wasanaeth mewn iaith wahanol.

Yr ardd oedd y lle tawel erbyn i mi gael y sgwrs gyda'm ffrind. Yn yr ardd yn gwrando ar yr adar oedd y llonyddwch. Yno roedd fy enaid yn cael llonydd. Yno roeddwn yn dod yn agos at Dduw. Nid ar Zoom, nid dros y ffôn, ond yn yr ardd. Doedd hyn ddim yn anodd iawn yn byw fy hun mewn ardal reit wledig.

Dyweddod fy ffrind nad oedd wedi profi llonyddwch meddwl ers tro. Roedd wrth ei fodd yn mynd i eistedd mewn addoldy ar ei wyliau hefyd. I oleuo kannwyll, eistedd yn ddistaw yn "hel meddylia". Gorfennodd y sgwrs gyda'm ffrind yn dweud, "Biti does 'na unlle fel yna yn dre i ni fynd". Doedd mynd ar y Sul ddim yn apelio ato, doedd o ddim isio mynd i unrhyw gapel i addoli, ond eto roedd yn gweld bod gan yr Eglwys rywbeth i'w gynnig iddo. Gofod. Gofod i fod yn llonydd ac i fyfyrto, cyfle i oleuo kannwyll ac eistedd yn hel ei feddyliau. Arhosodd y sgwrs yma yn fy nghof am beth amser.

Does dim amheuaeth fod 'na lot fawr o bobl wedi dioddef amser caletach na'r arfer dros y cyfnodau clo. Mae 'na 'greisis' mawr yn ein cymunedau gyda phobl yn dioddef ag anhwylderau iechyd meddwl. Mae 'na lot fawr o iselder ac unigrwydd yn ein cymunedau. Mae 'na ddiffyg arian yn y maes iechyd meddwl, ond eto mae 'na alw mawr am wasanaethau cefnogol.

Yn dilyn sgwrs gyda'r Parchedig Anna Jane Evans, sydd erbyn hyn yn weinidog yng Nghaernarfon, fe benderfynwyd y byddwn yn ceisio gwneud rhywbeth yn ein cymuned i ymateb i'r heriau yma. Roedd geiriau fy ffrind yn gryf yn fy nghof. Mae 'na gymaint o gapeli yn y dref. Mwy aml na pheidio, oni bai fod 'na weithgarwch penodol, maen nhw i gyd ar gau yn ystod y dydd. Cytunwyd y byddem yn



agor ein drysau yng Nghapel y Maes. Dim trefnu gweithgarwch na digwyddiad, dim ond agor y drysau.

Gyda chefnogaeth Cyngor Eglwys Caernarfon mae prosiect Hafan wedi cychwyn, ac mae 'na wirfoddolwyr o bob capel/enwad yn fy helpu bob wythnos. Bob dydd Mawrth bydd Capel y Maes yng Nghaernarfon ar agor rhwng 12 a 3. Gofod diogel a thawel i unrhyw un ddoed i mewn. Cyfle i bobl eistedd yn hel meddyliau neu fyfyrto a gweddio. Gofod i oleuo kannwyll i gofio am golli un annwyl. Cyfle i gael munud fach o dawelwch neu sgwrs a phaned i godi calon.


Un peth yn sicr sydd gennym ydy adeiladau a gofod i'w gynnig i'n cymunedau. Ein gobaith yw y bydd Hafan yn lle i'r enaid gael llonydd i bobl y dref, a'r rheiny sydd yn crwydro.

Oes angen gofod i'r eneidiau gael llonydd yn eich ardal chi? Beth am agor y drysau? Am fwy o wybodaeth neu sgwrs am y prosiect mae croeso i chi gysylltu gyda mi: [Llinos.morris@ebcpcw.cymru](mailto:Llinos.morris@ebcpcw.cymru)

Llinos Morris, Caernarfon


# HAFAN

'Lle i'r enaid gael llonydd'



Cwmni  
Paned  
Croeso

Amser tawel  
Gweddi  
Goleuo Cannwyll



**CAPEL Y MAES, CAERNARFON**  
**POB DYDD MAWRTH 12 - 3**  
Cefnogwyd gan Cyngor Eglwys Caernarfon

**Cristnogaeth 21**  
**Encil y Pentecost**

Dydd Sadwrn, Mehefin 18  
yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy

**Y gwynt sy'n chwythu lle y mynno**  
**(Ioan 3.8)**

yng nghwmni

Y Gwir Barchedig Andy John, Archesgob Cymru  
Y Parch Sara Roberts, Y Parch Aled Lewis Evans  
Manon Llwyd a Cefyn Burgess  
Cost £25 yn cynnwys bwffe

Cofrestru cyn Mehefin 4  
(nifer cyfyngedig)

Catrin Evans: [catrin.evans@phonecoop.coop](mailto:catrin.evans@phonecoop.coop)  
01248 680858

## Arddangosfa Gelf yng Nghapel Lind Road, Sutton

Yr oedd penwythnos y 7fed a'r 8fed o Fai yn un arbennig i aelodau a chyfeillion Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Lind Road, Sutton. Am y tro cyntaf yn ei hanes, cynhaliodd y capel Arddangosfa Gelf i blant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a gyda thrafodaethau hyd yn oed yn ystod y pandemig, mae aelodau'r capel wedi bod yn partneru â SUTTONfx yn edrych ar wahanol ffyrdd o fod yn 'eglwys' a bod yn rhan o brosiectau cymunedol.

Yn dilyn trafodaethau ar sut i symud ymlaen fel cynulleidfa oedranus, teimlai'r aelodau eu bod yn cael eu galw i weddio a dirnad ai dyma ewyllys yr Arglwydd ar gyfer y dyfodol yn hytrach na'n gweledigaeth gyfyngedig o'r darlun mawr. I ddechrau, roedd cyflwr ac oedran yr adeilad i'w ystyried, cost y gwaith atgyweirio ac oedran yr aelodau presennol. A fyddem yn ymateb i'r her?

Rydym wedi bod mor ffodus i gael Jeff Richards, Gweinidog Lleyg sy'n Weinidog Arloesol SUTTONfx, i rannu'r pryderon hyn yn weddigar a datrys yr heriau wrth inni symud ymlaen mewn ffydd. Mae ein cwrdd gweddi bore Sadwrn wedi bod yn fuddiol, nid yn unig i Richard ein gweinidog ac aelodau'r capel ond hefyd i gael Jeff a gweinidog lleol arall sydd bellach yn ymuno â ni i weddio. Byddwn yn ymestyn yr amser hwn yn fuan ac yn cynnal grŵp Beiblaidd yn y prynhawn. Dywedir bod 'Gweddi yn Newid Pethau'; mae hefyd yn arwain i dwf.

Yr Arddangosfa Gelf oedd y cyntaf o lawer o ddigwyddiadau yr ydym yn eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn a phroffoddi i fod yn ffordd i gynnig lletygarwch i'r gymuned gyfagos. Bu ymwelwyr yn ffyddio i mewn trwy gydol y penwythnos; roedd y plant a gymerodd ran yn llawn cyffro o weld eu llun yn cael ei arddangos i'r cyhoedd. Roedd rhai o'r plant wedi bod yn mynychu dosbarthiadau celf sy'n cael eu rhedeg gan artist lleol cymwys, sef Su Steadman, ac roedd yn amlwg bod y plant wedi datblygu ymdeimlad o gyflawniad,



Rhoda, Gwen, Richard a David yn dangos lluniau o waith y plant yng nghapel Lind Road

balchder a hyder yn eu gwaith trwy ei dylanwad. Yn wir, roedd y lle yn fwrwm o weithgarwch.

Yr ydym ni yn Lind Road wedi cael ein hannog gan Richard ac yn fwy diweddar wedi ein cefnogi gan Miriam i ymestyn allan gyda'r Newyddion Da sydd gennym ac i rannu ag eraill i hyrwyddo'r deyrnas. Roedd yn bleser pur i'r capel gael cynnal y digwyddiad hwn ac yn y modd hwn ehangu i'r gymuned. Yn nodweddiadol, ni allem gynnig croeso Cymreig heb fara brith, picau ar y maen a phaned o de Cymreig!

Mae'r Pêr Ganiedydd yn ein hatgoffa – "Ni fethodd gweddi daer erioed / â chyrraedd hyd y nef" ac yna "Mae ei ffyddlondeb fel y môr, heb fesur a heb drai". Felly ymlaen i'r dyfodol yn hyderus yr awn.

Gwen Wildman

## Y Gwynfydau ... a'r Cyfryngau Cymdeithasol



Ar ddechrau'r Bregeth ar y Mynydd yn Mathew 5, mae lesu yn cyfeirio at wyth rhinwedd a ddylai fod yn rhan o fywyd y crediniwr. Ond beth sydd gan y Gwynfydau i'w dweud am y modd rydym yn byw ein bywydau ar lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol? Ydyn ni'n 'byw'r Gwynfydau' wrth i ni dreulio amser ar y cyfryngau hyn?

**Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.**

Ceisïaf gofio bod fy 'nghymeriad' yn dod o'r ffaith i mi gael fy nghreu ar lun a delw Duw, sy'n gofalu amdanaf ac yn fy ngharu, ac nid ar yr hyn sy'n ymddangos ar fy mhroffil ar y we.

**Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.**

Mae ein byd yn llawn gofid, pryder a dioddefaint i lawer o bobl. Ceisïaf rannu postiadau yn ofalus, yn dyner ac yn gariadus.

**Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.**

Ceisïaf fy ngorau i ymatal rhag brolio fy hun a fy nheulu, gan osgoi bychanu eraill ar y we.

**Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.**

Y mae llawer o anghyfiawnder i'w weld o'n cwmpas, a newyddion ffug yn cymylu ein golwg ar bethau. Ceisïaf fy ngorau i fod yn eirwir gan osgoi rhannu ffeithiau celwyddog sy'n llawn casineb.

**Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.**

Ceisïaf beidio bod yn feirniadol o bobl eraill wrth wneud sylwadau, gan fod yn ymwybodol yr un pryd o fy methiannau i fy hun.

**Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.**

Ceisïaf fod yn fi fy hun, yn agored a gonest, heb geisio creu delwedd i blesio eraill ac i ddangos fy hun.

**Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.**

Ceisïaf fy ngorau i bostio'n gyfrifol a gofalus, gan geisio cymodi'r rhai sy'n postio'n fyrbyyll ac yn ymosodol, gan ofyn am bwyll a maddeuant.

**Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.**

Ceisïaf beidio ag ychwanegu at y casineb a'r rhagfarn a welwn ar lein, ond gwnaf fy ngorau i sefyll i fyfny i bob celwydd gan amddiffyn y rhai sy'n cael eu herlid, a phobl yn ymosod arnynt am geisio'r gwirionedd.

# O'r Beibl: 1

Cyfres newydd ar gyfer astudiaeth personol neu fel grŵp

**Dod i nabod Duw'n well**  
Darllen: Salm 119:1-8

Yn ôl y Beibl, prif nod ein bywydau yw gogoneddu Duw a'i fwynhau ef. Mae hyn yn glir trwy'r Beibl i gyd. Mae 1 Corinthiaid 10:31 yn dweud: 'Beth bynnag a wnewch, p'run ai bwyta, neu yfed, neu unrhyw beth arall gwnewch bopeth er gogoniant Duw' ac mae Philipiaid 4:4 yn dweud: 'Lawenhewch yn yr Arglwydd bob amser.' Ond sut ydym yn gogoneddu Duw a'i fwynhau ef? Wel, yn bennaf, trwy ddod i'w adnabod ef yn well.

Rydym yn dod i adnabod Duw yn well trwy ddarllen ei air ef, y Beibl. Er i'r llyfr hwn gael ei ysgrifennu gan nifer o awduron dros gannoedd o flynyddoedd, Duw yw'r Awdur sydd wedi ysbrydoli'r cyfan. A thrwy dudalennau'r llyfr unigryw hwn, mae Duw yn dangos i ni sut yn ydyw. Gwrandewch ar y ffordd mae Paul yn disgrifio'r Beibl yn 2 Timotheus 3:16:

Y mae pob Ysgrhythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.

Mae'r Ysgrhythur i gyd wedi ei hysbrydoli gan Dduw. Mae hyn yn golygu fod y Beibl yn unedig, yn ddibynadwy ac yn glir:

- Mae'r Beibl yn unedig.** Mae 66 llyfr yn y Beibl: 39 yn yr Hen Destament a 27 yn y Testament Newydd. Maent wedi cael eu ysgrifennu gan dros 40 o awduron o wahanol gefndiroedd dros gyfnod o 1,500 o flynyddoedd. Er hynny, yr un neges sydd gan y Beibl gan mai un Duw wnaeth ysbrydoli'r awduron hyn i ysgrifennu: y neges am Dduw sydd wedi gwneud ffordd i achub ac adfer byd colledig drwy ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist.
- Mae'r Beibl yn ddibynadwy.** Gan mai'r Duw da, diffuant a dibynadwy sydd wedi ysbrydoli'r Beibl, mae'r Beibl hefyd yn dda, yn ddiffuant ac yn ddibynadwy. Nid yw'n dysgu celwyddau; dim ond y gwirionedd. Gallwn ni ymddiried yn y Beibl gan ei fod yn ddibynadwy.



- Mae'r Beibl yn glir.** Mae Duw wedi rhoi'r Beibl i ni er mwyn i ni ddod i'w adnabod. Nid yw'r Beibl yn llyfr annealladwy, amwys ac annelwig. Mae'r Beibl yn ddealladwy ac yn glir. Mae pawb – pa faint bynnag o addysg maent wedi ei derbyn – yn gallu ei ddeall a'i ddirnad. Nid oes yn rhaid bod yn ysgolhaig Hebraeg i'w ddarllen. Nid oes yn rhaid cael PhD mewn diwinyddiaeth i fedru deall ei neges. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu nad yw rhai darnau o'r Beibl yn anoddach i'w darllen na rhannau eraill (gall darllen y darnau hyn gyda chymorth esboniad da fod yn help. Mae rhestr ddefnyddiol o rai da ar gael y ddolen: [yma](#)). Ond, er hynny, nid yw anodd yr un peth ag aneglur. Trwy dreulio amser yn astudio'r Beibl yn weddigar, bydd yr Ysbryd Glân yn ein helpu i'w ddeall.

Gallwn felly ddarllen y Beibl yn hyderus. Mae'n unedig, yn ddibynadwy ac yn glir. Trwy'r llyfr hwn, gallwn ni ddod i nabod Duw - a does dim yn bwysicach na hynny. Beth am geisio darllen ychydig adnodau o'r Beibl yn ddyddiol? Dyma arfer all newid ein bywydau. Lle ardderchog i gychwyn yw gyda'r Efengylau (Mathew, Marc, Luc ac Ioan) sy'n sôn am fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

*Gwilym Tudur, Aberystwyth*



**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**  
Eglwys Bresbyteraidd Park End  
(Cyfrwng Saesneg)

## Gweithiwr Teuluol (Rhan amser)

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru Park End yn tyfu'r tîm arwain sydd ganddynt ac yn awyddus i benodi rhywun i ymuno â thîm yr eglwys i arwain, datblygu a chydlynu Gweinidogaeth Deuluol a Phobl Ifanc a Gweithgareddau Ymestyn Allan.

**Lleoliad:** Eglwys Bresbyteraidd Cymru Park End, Heol Llandennis, Caerdydd

**Oriau:** 21 awr yr wythnos

**Tymor:** 3 blynedd (gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf)

**Cylog:** £21,638 - £23,775 (Pwynt 18-22) a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC. Mae lwfansau tŷ a char yn berthnasol i'r swydd.

I gael disgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â [admin@parkendcardiff.org.uk](mailto:admin@parkendcardiff.org.uk)

I ddarganfod mwy am yr eglwys ewch i [www.parkendcardiff.org.uk](http://www.parkendcardiff.org.uk) & <https://www.youtube.com/c/ParkEndChurch>

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad manylach DBS a dau eirida boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Dyddiad Cau: 21 Mehefin 2022, 4yh.

**S4C**

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 29 Mai, am 7.30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ar drothwy Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, cawn fwynhau canu cynulleidfaol gan bobl ifanc yr ardal o dan arweiniad Ceri Haf Roberts.

**BBG radio cymru**

**Caniadaeth y Cysegr**  
Sul, 29 Mai, am 7:30yb a 12:00yp  
R. Alun Evans yn dathlu canmlwyddiant yr Urdd.

**Sul, 29 Mai, am 4:30yp**  
Gwasanaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

## Ffydd a Diwylliant

### Aros a newid

Dwi ddim yn ffotograffydd, ond dwi'n mwynhau tynnu lluniau yn achlysurol.

Yn ddiweddar dwi wedi synhwyro newid yn of fy hun.

Gen i gof mynd ar wyliau cerdded i wlad bell flynyddoedd yn ôl. Roedd gen i ddau ffrind ychydig yn hŷn na mi yn gwmni. Dwi'n cofio rhyfeddu at y ffaith eu bod nhw'n aros byth a beunydd ar y daith i dynnu lluniau blodau. Pobl oedd fy mhethau i ac olion y bobl hynny ar y byd: prysurdeb strydoedd a marchnadoedd, eglwysi ac adeiladau. Pa fudd oedd mewn blodau pan oedd dyfnder y bydysawd mewn llygaid plentyn, neu ryw hanes epig yn rhychau a chreithiau hen ddyn?

Ond rywsut rywbyrd fe ddaeth yna newid drosta i. Pryd yn union wn i ddim.

Erbyn hyn dwi'n edrych ar ffeiliau fy ffôn neu'n dilyn y llwybrau trofaus drwy fy nghyfyngau cymdeithasol ac yn sylweddoli bod mwy a mwy o luniau o fydd natur yno.

Ond mae'r syniad yma o newid wrth fynd yn hŷn a sut mae celfyddyd yn ymateb iddo wedi fy rhyfeddu i ers tro byd.

Dyna i chi Monet a'r lili ddŵr. Treuliodd dri degawd yn peintio tua 250 o ddarluniau o'r blodau yn ei ardd ac maen nhw'n newid o ran sut mae o'n gweld y byd yn drosiadol, ac yn llythrennol wrth



Llun gan Glen Marsch CC BY-NC-ND 2.0

i 'gataracts' effeithio ar y ffordd roedd o'n gweld.

Gellid dadlau bod y frenhines yn arbrawf cymdeithasol diddorol ar sawl lefel. Ond mewn un maes mae'n llythrennol wir. Mae ei darllediad blynyddol ar ddydd Nadolig yn enghraifft unigryw, mae'n debyg, o'r un person yn dweud rhywbeth tebyg dan yr un amgylchiadau unwaith y flwyddyn dros dri chwarter canrif. Ac mae hi wedi newid. Mae hi wedi heneiddio, a'i llais, fel hithau, wedi torri. Ond mae ei hiaith hi wedi newid yn ogystal; mae hi wedi 'comaneiddio'. Mae ei hacen yn llawer mwy 'estuary' nag oedd hi. Dylanwad yr oes a'r bobl o'i chwmpas hi, mae'n debyg. Dyw'r Queen's English ddim yn hyn fuodd o.

A dyna i chi stori fer-fer Brecht am ei gymeriad Herr Keuner, wedyn. Dyma hi yn ei chyfanwydd:

'Fe wnaeth rhyw ddyn oedd heb weld Herr K ers sbel ei gyfarch gyda'r geiriau:

"Ti heb newid dim." "O!" meddai Herr K. a gwelwi.'

Dyna dynged fyddai peidio newid o gwbl, o ran pryd a gwedd na chymeriad.

Ac efallai mai fy ffrindiau ar y daith honno oedd yn iawn. Onid ydy byd natur yn rhyfeddol yn ei addfwynder a'i ryferthwy, yng nghryfder lliwiau'r llanw gwanwynol ac arogleuon tawel y pydredd hydrefol?

O sylweddoli fod pob un planhigyn a chreadur yn gwbl berffaith ac wedi esblygu'n anghredadwy o gywrain at yr union ddiben y bwriadwyd o, efallai y sylweddolwn ni mai yno mae'r dwyfol yn dangos ei hun ar ei gorau ac nid yn yr un rhywogaeth drahaus a diddeall sy'n mynnu difetha'r byd i bopeth arall o'i chwmpas.

Efallai y dylen ni gamu allan o'n heglwysi a dysgu gwyleidd-dra wrth addoli. Yng ngeiriau'r hen slogan, 'mae'n rhaid i bethau newid'.

Arwel Rocet Jones

## Gwahoddiad i Babell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych a'r Fro 29 Mai–4 Mehefin

Cofiwch fod mynediad i'r brifwyl yn rhad ac am ddim eleni – ond bod yn rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw o wefan yr Urdd.

Fe'ch gwahoddir yn gynnes i droi mewn atom i babell yr eglwysi, o dan nawdd

Cytûn

Cyngor yr Ysgolion Sul

Cymorth Cristnogol.

Bydd dewis o weithgareddau i blant – crefft, lliwio, paentio wynebau ayyb gyda diod a lolipops am ddim hefyd.

Bydd cyfle i ymuno gyda Chymorth Cristnogol i gyfrannu at y project celf am newid hinsawdd hefyd.

I rieni ceir dewis da o lyfrau Cristnogol, ac i arweinwyr eglwysi ceir cyfle am sgwrs a chip ar y gwrslyfrau a'r llyfrau defosiynol diweddaraf.



Cofiwch hefyd am yr oedfa fore Sul, 29 Mai, a fydd yn cael ei chynnal eleni yn y Capel Mawr, Dinbych.

Croeso i chi ymuno yn y bwrlwm!

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Eryn 55 'Sanctaid, sanctaid, sanctaid' Cyflwyniad

Heriodd y diwinydd Richard Niebuhr ragdybiaethau ei gyfoedion yn yr Amerig pan fynodd eu bod yn pregethu am 'Dduw oedd heb ddigofaint a ddaeth â phobl oedd heb bechod i mewn i Deyrnas oedd heb farn drwy weinidogaeth Crist oedd heb groes'.

Nid Duw 'meddal' sydd heb farn na chondemiad o ddrwg yn perthyn i'w gymeriad yw'r Arglwydd a welwn yn nhudalennau'r Beibl. Nid rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn yw ceisio sefyll yn ei bresenoldeb a pheth ofnadwy yw bod mewn cyflwr o wrthryfel i'w erbyn. Y mae *tueddfryd a gweithredoedd* gwrthryfelgar yn disgrifio *statws* y 'pechadur' gerbron ei Arglwydd.

Er i ni wingo wrth ddehongli'r geiriau 'caled', y gwir yw na all unrhyw ddarlenniad o'r testunau a awgrymir gan y Llithiadur osgoi'r ffaith bod yna ganlyniadau negyddol i wrthryfela yn erbyn sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw ond bod bendithion a breintiau dirifedi yn eiddo i'r rhai a ildiodd coron eu bywyd i'r Arglwydd Iesu Grist.

**Darllen Salm 97** neu gallwch ganu *Salmau Cân Newydd* <https://www.bible.com/bible/1364/PSA.97.SCN>

Yn ein darlleniad cyntaf darlunnir yr Arglwydd fel Bod na ellir ei ddirnad – caddug a dirgelwch sy'n ei amgylchynu. Drwy ddatguddiad canfyddwn mai 'cyfiawnder a barn' yw ei orsedd. Ac er i ni ymateb efallai drwy arswydo rhag ei burdeb, yr union nodweddion hynny yw ein gobaith hefyd. Y mae'n Dduw sy'n barnu ei elynion, ac yn rhyfeddod ei ysblander cywilyddir dychmygion y rhai sy'n addoli 'duwiau' pitw o'u dychmyg eu hunain. Yr Arglwydd cyfiawn yw gwaredwr, sail gobaith ac addoliad ei bobl.

Nid cath fach wedi ei sbaddu a'i dofi gan ein dychmygion mo'r Arglwydd ond 'y llew o lwyth Jwda'. Ni ellir ei ddofi na'i gaethiwo. Ni ellir cyfyngu arno ac nid atelir ei weithredoedd gan unrhyw un arall. Er nad ydyw byth yn 'saff' i nesu ato, cawn ein gwahodd i nesáu at yr hwn sydd bob amser yn dda!

Beth am droi yn awr at emyn rhyfeddol Edward Jones, Maes-y-plwm, i fyfyrion ar aruthredd yr hwn yr ydym yn ei addoli?

(Emyn 215: Mae'n llond y nefoedd, llond y byd...)

### Gweddi

Arglwydd, addolwn di yn dy sancteiddrwydd. Maddau i ni pan fyddwn yn ceisio dy feddiannu ar ein telerau ni ein hunain. Cyffeswn ger dy fron i ni geisio cyfyngu arnat drwy'n dychmygion a thybio nad ydwynt fawr fwy na'n hamheuron, dy fod mor gyson â'n hanffyddlondeb ac mor eglur â'n hanghrediniaeth. Maddau i ni pan fyddwn yn siomi nad wyt yn fodlon cyfyngu dy hun i gaethiwed ein meddyliau meidrol, pitw a thywyll. Maddau i ni hefyd os ceisiwn dy gaethiwo yn ein profiad neu'n hymddiriedaeth neu'n dadansoddiadau diwinyddol ohonot. Ni ellir dy gyfyngu i unrhyw system na dealltwriaeth. Yr wyt dy hun yn anfeidrol, yn sanctaidd a gogoneddus, ac yr wyt yn dy holl weithredoedd, mewn cariad ac mewn barn, bob amser yn dda. Rwy'ti, mae'n wir, yn 'llond y nefoedd, llond y byd', yn llenwi tragwyddoldeb, yn anfeidrol, annherfynol Fod sydd â'th hanfod ynot dy hun. Er na allwn gyfyngu arnat, diolchwn heddiw y cawsom ein gwahodd i'th addoli di drwy Iesu Grist. Amen.

### Darlleniad – Datguddiad 22:12-21

A oes unrhyw un ar wyneb y ddaear heddiw sy'n credu bod y byd yn deg, a'r hyn sy'n digwydd ynddo fel y dylai fod? Yn genedlaethol? Yn rhyng-genedlaethol? Yn gymdeithasol, yn addysgol, yn ariannol? Yn ddwfn ynom fel hil mae dyhead am gyfiawnder, a barn, a heddwch, a chwiliwn am gynlluniau neu am bleidiau fydd yn ymgysylltu at ein delfrydau!

Pan unwn i weddio 'Gweddi'r Arglwydd' dywedwn, 'deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.' Cydnabyddwn bryd hynny mai teyrnas a sefydlir gan Dduw, lle caiff ewyllys Duw ei chyflawni'n berffaith ar y ddaear fel yn y nef, yw'r deyrnas yr ydym yn dyheu amdani. Cyffeswn na all unrhyw raglen wleidyddol, na delfryd lwtopaidd ddaearu'r deyrnas o gyfiawnder ac o hedd. 'Deled dy Deyrnas' yw ein cri a'r mynegiant dwysaf o ddyhead disgyblion Iesu ym mhob man ac ym mhob oes.

Yn ein darlleniad o ddiwedd llyfr y Datguddiad cawn ein tywys i fyfyrion ar gyflawniad y dyhead ac am ogoniant yr hwn sy'n dwyn y deyrnas i'w chyflawnder.

Cawn ein cyflwyno i'r hwn sy'n 'Myfi yw' tragwyddol. Ef yw Arglwydd a Gwaredwr ei bobl. Ef yw'r 'Alffa a'r Omega, y dechrau a'r diwedd'. Ni cheir unrhyw un a'i rhagflaenodd ac ni ddilynir ef gan unrhyw un. Ef ei hun yw mesur pob peth – mewn amser ac yn nhragwyddoldeb. Ef yw'r 'gwreiddyn'. Ohono ef y tardda popeth ac ef ei hun yw awdur a tharddiad lachawdwriaeth. Yn wir y mae fel 'seren ddisglair y bore', yn hardd, yn amlwg, yn ddeniadol, ac ef ei hun yw'r arwydd bod bore ddydd gerllaw! Ef hefyd yw Arglwydd pob *gras*. Ef sy'n cynnig i'r byd y rhodd na all unrhyw un ei haeddu na'i hennill.

Rhodd a estynnir i bobl heb haeddiant yw ei ras ond nid pawb sy'n dewis derbyn ei wahoddiad (adn. 15). Dewis gwrthod yr hawl i berthyn i'r ddinas nefol, a cholli ein rhan ym 'mhren y bywyd' yw hyn. Er ein gwrthryfel, y mae gwahoddiad grasol yr Arglwydd yn parhau i wahodd y 'sychedig; i ddod ymlaen'. Disychedir, yn ei ras, bob un sy'n ymateb. O newid y darlun, dyma'r rhai a olchodd eu mentyll ac a gafodd eu himpio i mewn i bren y bywyd.

Nid egwyddor, neu athroniaeth, neu rym amhersonol ddaw â chyflawniad hyn oll. Iesu ei hun, yr hwn sy'n dod yn fuan, yw cyflawnder a chyflawnwr hyn oll y mae Duw am ei gyflawni ynom drwy'r Ysbryd.

Addewid yr Arglwydd wrth ei eglwys yw hyn. 'Ac wele, yr wyf yn dod yn fuan' (adn. 12). Craffwch, meddai. Syllwch ar lawredd yr hwn sy'n gyflawniad i'r dyheadau a roddwyd ynoch. 'Yn wir' cyflawnir hyn oll a addawodd. Ni ddywedodd y deuai ar unwaith, ac ni ddaw yn ôl ein calendrau na'n disgwyliadau ni. Digon yw i'n ffydd yw gwybod y daw yn *fuan*, heb oedi, heb i unrhyw un, neu i unrhyw amgylchiad, ei rwystro.

I'r rhai a ymatebodd i'w wahoddiad grasol, 'Tyrd', plannwyd dyhead drwy'r Ysbryd Glân am gyflawniad y purdeb, am absenoldeb yr anghyfiawn. A mynegir yr awydd yn y dyhead oesol, 'Tyrd, Arglwydd Iesu.'

Y mae yn dod yn fuan a daw dydd na fyddwn yn gweddio mwyach 'deled dy deyrnas'. Fe ddaw!

### Gweddi

Gweddi'r Arglwydd

**Emyn 612 'Un sylfaen fawr yr Eglwys'**

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)